

## CYNGOR BRO LLANGELER – 30-09-2019

Cofnodion Cyfarfod Nos Lun Medi 30ain 2019 yn Neuadd yr Eglwys, Penboyr, Felindre, Llandysul am 7.30y.h.

1. **09/19 PRESENNOL:** Yn y gadair – Cyng. Marc Rees, Cynghorwyr: John Crossley, Delyth Evans, Aled Eynon, Ken Howell, Brenda Jones, Dilwyn Smith, Adrian Thomas, John Wigley. Clerc – Stella Jones  
HEFYD YN BRESENNOL – Heddlu ,
2. **09/19 YMDDIHEURIADAU:** Cyng. Jamie Ayres, Richard Evans, Christopher Jones, Nesta Jones,
3. **09/19 DATGANIADAU DIDDORDEB :-** Materion yn Codi – 6.xx. &9.c.ii. Cllr. A Eynon
4. **09/19 HEDDLU:** PCSO J Kedward atgoffodd am y digwyddiad yn Neuadd y Ddraig Goch nos Iau 3ydd Hydref am 7.30yh ac hefyd y digwyddiad am cyffuriau yn CNEmllyn ar y 4ydd o Hydref am 7.30yh
5. **09/19 COFNODION:** derbyniwyd cofnodion Cyfarfod Misol Gorffennaf 30ain 2019 a'i cael yn gywir.  
Cynigydd – Cyng. J Wigley Eilydd – Cyng. D Smith
6. **09/19 MATERION YN CODI :**  
7.xv.05/16 Caeau Canmlwyddiant – i gadarnhau bod cymal yn y cytundeb yn sicrhau na all y tir gael ei werthu na'i ddatblygu yn y dyfodol  
10.11.07/16. Toiledau Parc Puw – peintio yn dal heb ei wneud  
10.i.06/17 Tir Temple – derbyniodd y Clerc adroddiad wrth Jason Lawday yn cadarnhau  
6.xx. Les Cae Chwarae Maesyderi, Pentrecwrt – mae cyfreithiwr y Cyngor yn dal i aros i glywed wrth pwyllgor y Parc pwy yw ei Cyfreithiwr cyn medru bwrw mlaen a chwblhau'r les  
10.01/19 Dadorchuddio Plac Caeau Canmlwyddiant – dim i ychwanegu ar hyn o bryd  
7. xiii.05/19 – Ian Cameron – Cyng M Rees i ddilyn hwn lan
7. **09/19 GOHEBIAETH:**
  - i. Eluned Morgan – cylchlythyr
  - ii. ebost – ULIC – Bwletin Newyddion Awst 2019 - cylchlythyrwyd
  - iii. ebost – CSG – Cau ffordd dros dro – C1295 Felindre, Llandysul cau ffordd dros dros – cylchlythyrwyd
  - iv. ebost – CSG – Ceisiadau Cynllunio .07.19 - 02.08.19 – cylchlythyrwyd
  - v. ebost – ULIC – Paul Egan - Long Forest Project - Free App for Community Councils to Survey Hedgerows –  
cylchlythyrwyd
  - vi. ebost – CSG – Ceisiadau Cynllunio 05.08.19 - 09.08.19 – cylchlythyrwyd
  - vii. ebost – CSG – Ceisiadau Cynllunio 12.08.19 - 16.08.19 – cylchlythyrwyd
  - viii. ebost – CSG – Arolwg o'r trefniadau etholiadol ar gyfer Sir Gaerfyrddin – cylchlythyrwyd
  - ix. ebost – Panel Heddlu a Throseddu Dyfed Powys - Adroddiad Blynnyddol Y Cadeirydd – cylchlythyrwyd
  - x. ebost – Fframwaith Datblygu Cenedlaethol - Cylchlythyr 008 – Awst 2019 – cylchlythyrwyd
  - xi. ebost – CSG – Ceisiadau Cynllunio 19.08.19 - 23.08.19 – cylchlythyrwyd
  - xii. ebost – fforwm cyhoeddus tynged yr iaith - 09.30-11.30 Bore Sadwrn 21 Medi, Caerfyrddin
  - xiii. ebost – Un Llais Cymru - Bwletin Newyddion – cylchlythyrwyd
  - xiv. ebost – Arolwg Ynni Sir Gâr – cylchlythyrwyd
  - xv. ebost – CSG – Newidiadau sy'n effeithio ar y gwasanaeth ailgylchu / biniau – cylchlythyrwyd
  - xvi. ebost – Adroddiad Blynnyddol Panel Heddlu A Throseddu – cylchlythyrwyd
  - xvii. ebost – CSG – Ceisiadau Cynllunio 26.08.19 - 30.08.19 – cylchlythyrwyd
  - xviii. ebost – ULIC – Cynhadledd a Chyfarfod Cyffredinol Blynnyddol Un Llais Cymru 05/10/19 – cylchlythyrwyd
  - xix. ebost – Ddeddf yr Amgylchedd Cymru 2016 - Dyletswydd Cynghorau Chymuned a Thref – cylchlythyrwyd
  - xx. ebost – Rali Tymor yr Hydref, Clwb Moduro Caerfyrddin – cylchlythyrwyd
  - xxi. ebost – CSG – Ceisiadau Cynllunio 02.09.19 - 06.09.19 – cylchlythyrwyd
  - xxii. ebost – ULIC – Gwireddu Cymru Gydradd
  - xxiii. ebost - CSG – Ceisiadau Cynllunio 09.09.19 - 13.09.19 – cylchlythyrwyd
  - xxiv. ebost – The Solutions Factory, VMS, CPU and Ynni Sir Gâr are joining the Global Climate Strike 20th September –  
cylchlythyrwyd
  - xxv. ebost – CSG – Ymgynghoriad Gorchymyn Llwybr Cyhoeddus – cylchlythyrwyd
  - xxvi. ebost – Gwahoddiad i gyfarfod a Chynrychiolwyr Adran Gorfodaeth Cynllunio CSG Ddydd Llun Medi 23ain am 2o'r gloch – cylchlythyrwyd – derbyniwyd adroddiad gan Cyng D Evans ar y cyfarfod a fynychwyd ganddi hi, Cyng. D Smith, K Howell a'r Clerc – yn dilyn y cyfarfod cytunwyd y dylai'r Clerc anfon ymlaen rhestr o'r llefydd sydd o gonsyrn i'r Cyngor at Adran Orfodaeth y Cyngor Sir
  - xxvii. ebost – CSG – Ceisiadau Cynllunio 16.09.19 - 20.09.19 – cylchlythyrwyd
  - xxviii. ebost – Gofal Mewn Galar gwahoddiad i ddathliad 60 mlynedd o'i sefydlu
  - xxix. CFF a DLCymru – Arolwg o'r Trefniadau Etholiadol ar gyfer Sir Gaerfyrddin

- xxx. CSG – Llinos Quelch – Gorfodaeth Cynllunio  
xxxi. Rhodri Edwards – Parc Puw  
xxxii. Western Power - cysylltiadau heb fesurydd dros dro ar gyfer goleuadau Nadoligaidd 2019/20  
xxxiii. ebost – CSG – Ceisiadau Cynllunio 23. 09.19 - 27.09.19 - *cylchlythyrwyd*  
xxxiv. ebost – CSG – cau ffordd dros dro – C1296 Felindre, Llandysul – *cylchlythyrwyd*

## **8. 09/19 CYNLLUNIO**

### **Cais Ymgynghori llawn**

- W/39248 – Felindre Public Convenience – amrywiad o amod 2 i ganiatâd cynllunio W/34844 – *dim gwrthwynebiad*  
W/39267 – CSW Holidays, Penwern Saron SA44 5EL –newid defnydd o hen gwrs golff i safle campio a glampio a 15 safle pebyll teithiol ynghyd a bloc toiledau a chawodydd, cyfleusterau compostio toiledau a defnyddio cysgodfan maes ar gyfer cyfleusterau cegin. Mynedfa cerddwyr – *dim barn*  
W/39273 – Land at Felindre SA44 5XE – newid defnydd tir i daear claddu naturiol, sy'n golygu gwelliannau i'r mynedfa presennol o'r hewl a chreu maes parcio i 20 o geir – *dim barn*  
W/39372 – Bronallt, Waungilwen SA44 5 – codi dau estyniad un llawr, un bob ochr i'r adeilad presennol – *dim barn*  
W/39421 – Plot adj 3 Groesffordd, Waungilwen SA44 5YQ – cais arfaethedig i godi annedd sengl – *mynegwyd pryder i ganiatâd gael ei roi i adeiladu mewn gard ynghyd a byddai'r mynedfa yn agor allan i hewl brysur*  
W/39442 – Brynmair, Bancyffordd SA44 4RY – codi estyniad arfaethedig i ochr dwyso ac eiddo garej benderfynu newydd i'r cefn – *dim gwrthwynebiad*  
W/39459 - Bwlch, Capel Iwan SA38 9NW – cyfnewid prif adeilad mas, tynnu lawr ac ail adeiladu y tŷ-mas presennol ynghyd a chysylltu estyniad i ffurfio dau uned gwyliau APP1294 -W/38271 – Cyflwyniad Apêl i Weinidogion Cymru yn erbyn penderfyniad CSG – *dim gwrthwynebiad*

## **9. 09/19 MATERION ARIANNOL**

- a. Grant Thornton – cyfrifon wedi ei archwilio ynghyd ag adroddiad – nodwyd bod llinell wedi tynnu trwy un bocs ar y ffurflen lle dylid fod wedi ysgrifennu **Nil** ac awgrymwyd bod gormod o arian yn y cyfrif cadw er i'r Clerc anfon rhaglen o'r prosiectau y bwriedir ymgymryd a nhw yn y dyfodol.
- b. **Anfonebau**
- i. TRYWYDD – cyfieithu yng nghyfarfod 30/09/2019 .....£dim angen cyfieithydd  
ii. HIRIO NEUADD yr EGLWYS – cyfarfod 30/09/19.....£10.50  
[caniatâd i dalu'r ddau uchod fel daw'r taleb fewn ]  
iii. SOLUTIONS FACTORY .....£150.00  
iv. STELLA JONES[2XPapur Argraffu + llyfr cofnodion].....£15.75
- Arian yn y Banc ar 30/08/19 .....£22,188.08
- c. **S/O**  
Cyflog y Clerk .....£600.00
- ch. **Credid**  
Praesept .....£10,537.73
- d. **Cais am Gefnogaeth Ariannol**  
CFFI Sir Gâr - £100

## **10. 09/19 MATERION ANGEN TRAFODAETH**

- i. Cafn Blodau ym Mhont Tyweli – cynnig wedi dod wrth breswyliwr sy'n byw ar bwys Cilgwyn Bach y byddai yn barod i ymgymryd ag ail leoli'r cafn i le mwy addas ynghyd a phlannu blodau newydd ac edrych ar ei ôl yn ddi-dal – *cytunwyd iddo wneud hyn.*  
ii. Golau Nadolig Pont Tyweli – gofynnodd Cyng A Thomas a byddai modd cael swïts newydd awtomatig i droi'r golau ymlaen gan bod yr un sydd yno ar hyn o bryd yn hen ac yn anodd i'w setio – *Clerc i gael pris cost adnewyddu*

## **11. 09/19 SYLWADAU'R CYNGHORWYR**

1. Cyng J Crossley – i. awgrymodd cyflwyno tlws i Jac Davies, Rhydygalfe am gynrychioli Cymru yng Nghystadleuaeth Genedlaethol Ieuencid Pysgota â Phlu yn yr Alban ym mis Mehefin – *cytunwyd i Hyn, Clerc i fynd ynghyd a chael tlws.*  
ii. dau gwter glaw ger sgwâr Pentrecwrt yn sincio'n ofnadwy.  
2. Cyng J Wigley – i. ger Dolhaidd mae dip yn yr hewl  
ii. cwteri wedi blocio yn Aberbudrell  
iii. cyflwr wyneb yr hewl allan i Tycoch yn ofnadwy.  
iv. pan bydd glaw trwm mae'r dŵr yn llifo lawr rhiw Penrhywcoyon

3. Cyng D Evans - i. falch i fedru adrodd bod y dŵr ddim yn aros ar yr hewl ochr isaf i'w thŷ bellach.  
ii. arwyneb yr hewl rhwng Crossroads a Phenfforddnewydd yn wael.

**12. 09/19 CYFARFOD NESAF**

Cynhelir y cyfarfod Misol nesaf yn Neuadd y Ddraig Goch, Felindre, Llandysul nos Lun Hydref 28ain 2019 am 7.30 yh.

Daeth y Cyfarfod i ben am 8.55yh

\_\_\_\_\_ Cadeirydd

\_\_\_\_\_ Dyddiad